Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ar ôl y tân

www.cymru.gov.uk

Cewch gyngor yn y daflen hon am yr hyn y dylech chi ei wneud, neu am y cyngor a'r cymorth y gall cyrff eraill eu rhoi i chi.

Ar ôl tân, byddwch am sicrhau bod bywyd yn mynd yn ei flaen yn ôl ei arfer a bod eich cartref yn cael ei adfer cyn gynted â phosibl.

Rydym yn gobeithio y bydd yr wybodaeth yn y daflen hon yn eich helpu i ymdopi â'r sefyllfa yn syth ar ôl y tân.

75% wedi'i ailgylchu
recycled

E7060910
CMK-22-10-145 (FS6)
© Hawfraint y Goron 2010

Rhywle i Fyw

Os ydych yn amau nad yw'ch cartref yn ddiogel neu os nad ydych yn siŵr y bydd modd i chi fyw ynddo ar ôl y tân, gallwch gysylltu â'ch Awdurdod Tai lleol. Fel arall, os nad oes modd i chi fyw yn eich cartref, ewch ati i geisio trefnu cartref dros dro gyda pherthnasau neu ffrindiau nes y gallwch chi wneud trefniadau mwy parhaol.

Os nad yw'ch cartref wedi'i ddiogelu ac os oes yn rhaid i chi ei adael heb neb i ofalu amdano, cofiwch gau pob drws a ffenestr. Os oes angen rhoi estyll ar draws y ffenestri a'r drysau, dylech gysylltu â'ch Awdurdod Lleol, os yw hynny'n briodol. Gallwch ddod o hyd i rifau ffôn contractwyr dan "Glaziers" yn y llyfr ffôn.

Cofiwch gysylltu â'r heddlu lleol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod bod eich cartref yn wag.

Yswiriant

Os oes yswiriant gennych, cysylltwch â'ch Cwmni Yswiriant cyn gynted ag y bo modd. Mae'n bosibl y bydd am archwilio'ch cartref/cynnwys cyn i unrhyw beth gael ei symud. Bydd angen i chi ofyn am ffurflen hawlio ac yna mynd ati i'w llenwi. Os oes modd, tynnwch ffotograffau o'r cynnwys a'r difrod. Gallai hynny eich helpu â'ch cais am arian yswiriant, yn enwedig os oes difrod ar raddfa fawr.

Cyflenwadau Ynni

Trydan

Os yw'r tân wedi effeithio ar y cyflenwad trydan mewnol, mae'n fwy na thebyg y bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi'i ddiffodd.

Peidiwch â rhoi cynnig ar ailgysylltu'r cyflenwad nes i drydanwr cymwysedig ei archwilio, neu nes i'ch cyflenwr trydan wneud hynny.

Nwy

Os yw'r tân wedi effeithio ar eich cyflenwad nwy neu ar offer nwy, bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub neu'r cwmni nwy yn diogelu'ch cartref drwy ddiffodd neu ddatgysylltu'r cyflenwad nwy. Ni chodir unrhyw dâl am y gwasanaeth hwn.

Peidiwch â throi'r cyflenwad ymlaen nes bod peiriannydd cymwysedig wedi archwilio'r system.

Os ydych yn denant i'r Awdurdod Lleol, dylech gysylltu â'r Adran Dai Leol. Bydd yn trefnu unrhyw waith atgyweirio y mae angen ei wneud ar y gwasanaethau nwy, dŵr neu drydan yn eich cartref.

Tanau Simnai

Ar ôl tân mewn simnai, dylech:

- Roi gard tân o flaen y lle tân.
- Gadael i'r simnai oeri am 24 awr o leiaf cyn ailgynnau tân.
- Trefnu bod eich simnai'n cael ei glanhau cyn gynted ag y bo modd, ac yn rheolaidd ar ôl hynny.

Tanau mewn Cerbydau

Os yw'ch cerbyd wedi mynd ar dân, eich cyfrifoldeb chi yw ei symud oddi ar y ffordd. Os nad ydych yn aelod o gymdeithas foduro, mae'n bosibl y bydd yr heddlu'n gofyn i fodurdy lleol symud y cerbyd.

Os yw'ch cerbyd wedi mynd ar dân, eich cyfrifoldeb chi yw ei symud oddi ar y ffordd

Atal Tân

Mae'r profiad a gawsoch drosodd erbyn hyn, ond mae'n debyg ei fod wedi costio'n ddrud i chi. Gallai treulio ychydig funudau i ystyried camau i atal tân olygu eich bod chi a'ch teulu'n fwy diogel. Gallai fod yn fodd hefyd i sicrhau na all yr un peth ddigwydd eto.

Gallai synhwyrydd mwg achub eich bywyd. Bydd yn rhoi munudau gwerthfawr i chi a'ch teulu ddianc rhag tân a rhybuddio'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae diffoddwyr tân yn barod i gynnal archwiliadau diogelwch tân di-dâl yn eich cartref ac i osod larymau mwg am ddim. Maent yn barod hefyd i'ch helpu i baratoi cynllun dianc rhag tân ac i roi cyngor cyffredinol i chi am ddiogelwch tân.

I gael archwiliad diogelwch tân am ddim yn eich cartref gan eich Gwasanaeth Tân ac Achub lleol

ffoniwch 0800 169 1234

www.cymru.gov.uk/tan

Mae'n bwysig eich bod yn profi eich larwm mwg bob wythnos ac yn newid y batri bob 12 mis, neu'n amlach os oes angen